# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 04-10 : Cofnodion

**Dyddiad: dydd Mawrth 23 Mawrth 2010**
**Amser: 09:00-10:54**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Christine Chapman AC, Cwm Cynon (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Mike German AC, Dwyrain De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Naomi Stocks, Clerc

Gareth Thomas, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Cyflwynwyr

Simon Cooke, Gweithiwr Dysgu gan Gymheiriaid, Shelter Cymru

Richard Hamilton, Addysgwr Cymheiriad, Shelter Cymru

Rhian Jones, Cydgysylltydd Addysg, Shelter Cymru

**1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**

### 2. Deisebau newydd

### (i) P-03-260 Yr ymgyrch dros ffurfafen dywyll

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ymateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### (ii) P-03-274 Cynllun sgrapio boeleri

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Ysgrifennu at y deisebwr i roi manylion y cynllun a gyhoeddodd y Gweinidog ac i ofyn am eu sylwadau ar y cynllun.

### (iii) P-03-277 Newid y penderfyniad i werthu alcohol yn Eisteddfod yr Urdd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ateb gan y Gweinidog dros Dreftadaeth

Comisiynu papur gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ynglŷn â gwerthu alcohol mewn gwyliau ieuenctid eraill y mae Llywodraeth Cymru

yn eu hariannu

### (iv) P-03-279 Achubwch Brifysgolion Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ateb gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Ysgrifennu at y Pwyllgor Menter a Dysgu i ofyn a yw ei adroddiad i gyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru yn gwneud unrhyw argymhellion sy'n berthnasol i'r ddeiseb ac, os ydyw, byddai'n gofyn am ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion.

### (v) P-03-280 Ysbyty Brenhinol Caerdydd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Aros am ateb gan y Gweinidog dros Iechyd  Gwasanaethau Cymdeithasol

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol (rhan un)

### (i) P-03-134 System Anrhydeddau i Gymru

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Prif Weinidog a'r Llywydd i roi crynodeb o'r farn gyhoeddus a fynegwyd ar flog System Anrhydeddau i Gymru, a gofyn am eu barn ar y materion a godwyd

Ysgrifennu at Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon i holi sut y maent hwy'n anrhydeddu llwyddiant yng nghyd-destun ehangach system anrhydeddau'r DU

Postio'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau'r Pwyllgor a'r camau i'w cymryd ar y blog

Dadansoddi effeithiolrwydd y blog

### (ii) P-03-136 Parcio ym Mynydd Bychan a Birchgrove

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i holi:

a yw'r camau a nodwyd yn y cynllun teithio cynaliadwy wedi'u rhoi ar waith

a yw hyn wedi arwain at gynnydd mewn teithio cynaliadwy ac, o ganlyniad, a yw wedi creu rhagor o le i barcio ceir?

### (iii) P-03-150 Safonau canser cenedlaethol

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am drosolwg cyffredinol ar y meysydd hynny nad ydynt yn cydymffurfio â'r safonau ac i gael cadarnhad bod pob Bwrdd Iechyd Lleol wedi cynhyrchu cynlluniau gweithredu i sicrhau y byddant yn cydymffurfio â'r Safonau Canser Cenedlaethol erbyn mis Medi 2010.

### (iv) P-03-153 Celf Corff

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gasgliadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, gan bwysleisio'r angen i benderfynu ynglŷn â'r mater, ac i ofyn a yw'r Gweinidog yn rhagweld y caiff cyfyngiadau oedran eu cyflwyno.

### (v) P-03-156 Dal anadl wrth gysgu

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am:

ragor o wybodaeth am y meysydd datblygu allweddol a nodwyd yn yr archwiliad blynyddol

casgliadau allweddol y gweithdy a gynhaliwyd ar 30 Mawrth i gynorthwyo Byrddau Iechyd Lleol i gydymffurfio â'r Cyfarwyddebau Anadlu

### (vi) P-03-162 Diogelwch ar y ffyrdd yn Llansbyddyd

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i holi a yw'r adolygiad o ddiogelwch wedi dangos bod angen gwella unrhyw ran o'r gefnffordd hon ac, os felly, pryd y cânt eu rhoi ar waith

### (vii) P-03-182 Arian Ewropeaidd

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Pwyllgor Menter a Dysgu i ofyn:

am y wybodaeth ddiweddaraf am gasgliadau'r ymchwiliad i gronfeydd strwythurol

i'r Pwyllgor egluro hyd a chwmpas yr ymchwiliad i'r deisebwr

pam nad yw'r Pwyllgor yn ystyried defnyddio arian Amcan 1 yn ei ymchwiliad

## 4. Sesiwn dystiolaeth: P-03-265 Cynnwys gwybodaeth ac addysg am adael cartref yn y Cwricwlwm Cenedlaethol - Shelter Cymru

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Simon Cooke, Richard Hamilton a Rhian Jones a oedd yn cynrychioli Shelter Cymru

## 5. Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth gan Shelter Cymru.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn rhoi crynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynwyd ac yn gofyn:

a ellir cynnwys gwybodaeth ac addysg am adael cartref yn y Cwricwlwm Cenedlaethol

a yw'r maes llafur ABCh presennol yn y cwricwlwm yn rhoi arweiniad digonol i athrawon i gynnwys y mater hwn, o bosibl mewn gwersi ABCh?

am gylch gorchwyl a disgrifiadau swydd cynghorwyr ysgolion, a gofyn a fyddent yn rhoi cyngor i ddisgyblion am adael cartref

a yw'r arian ar gyfer cynghorwyr ysgol yn dod o gyllid canolog, ynteu ai Awdurdodau Addysg Lleol sydd â'r hawl i benderfynu yn y cyswllt hwn

Ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i roi gwybod iddynt am y ddeiseb gan gyfeirio at yr ymchwiliad y maent am ei gynnal i'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, ac i awgrymu y gallai'r Pwyllgor gymryd tystiolaeth gan Shelter Cymru fel rhan o'r ymchwiliad hwn.

Gofyn am gopi o adroddiad gwerthuso Cydletywyr Shelter Cymru wedi iddo gael ei gwblhau, a gofyn a gomisiynwyd yr adroddiad gan unrhyw gorff arall.

### 6. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol (rhan dau)

### (i) P-03-187 Diddymu'r tollau ar y ddwy bont Hafren

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

### Ysgrifennu ar y Dirprwy Brif Weinidog i holi pam nad ystyrir bod effaith y tollau ar y ddwy bont Hafren o fewn pwerau Llywodraeth Cymru

### (ii) P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w hatgoffa bod y Pwyllgor wedi gwneud cais i gael gwybod am enghreifftiau penodol o'r problemau'n ymwneud â recriwtio meddygon, ac am unrhyw gynnig a wnaed gan y Grŵp Adolygu Meddygon Iau.

Ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn gofyn am wybodaeth am gasgliadau'u hymchwiliad i wasanaethau i fabanod newydd-anedig, ac yn gofyn a fyddent yn barod i barhau i ymchwilio i'r materion yn ymwneud â recriwtio meddygon a amlygwyd wrth i'r Pwyllgor ymchwilio i'r ddeiseb

### (iii) P-03-217 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - agor ar ddydd Sadwrn

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Cau'r ddeiseb a pharatoi adroddiad yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa

### (iv) P-03-219 Fferyllfeydd yn y Barri

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r Grŵp Cyflawni Strategol mewn perthynas â rheoliadau fferyllfeydd

### (v) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn ei atgoffa bod y Pwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y meini prawf a gaiff eu defnyddio i benderfynu ym mha drefn y caiff y terfynau cyflymder eu hadolygu ar gefnffyrdd

### (vi) P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r GIG

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am amserlen ar gyfer cwblhau'r adroddiad ar yr ymarferiad cwmpasu gwasanaethau trin traed a phodiatreg

### (vii) P-03-224 Meithrinfa Stepping Stones

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i:

ofyn a oedd Adolygiad Blynyddol Blaenau Gwent yn cynnwys gwybodaeth am effaith cau meithrinfa Stepping Stones a pha gamau sydd wedi/a fydd yn cael eu cymryd i leihau unrhyw effaith, yn enwedig mewn perthynas â thlodi plant

gofyn pryd fydd y Strategaeth Gofal Plant yn barod i ymgynghori yn ei gylch

ailadrodd y cais i gynnwys y deisebwyr mewn unrhyw ymgynghoriad ar y Strategaeth Gofal Plant

gofyn sut y bydd y broblem yn ymwneud â darpariaeth gofal plant yn cael ei chynnwys yng nghyd-destun ehangach tlodi plant, a phan fydd darpariaeth o'r fath yn cau, a yw awdurdodau lleol yn cael cyngor i'w helpu i leihau'r effaith ar gymunedau lleol

### (viii) P-03-227 Yn erbyn y ffordd fynediad yn Llanmaes / P-03-252 Yn erbyn ffordd fynediad y Llu Awyr Brenhinol yn Sain Tathan (trigolion Trebefered)

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn pryd y bydd adroddiad yr Arolygwr i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft yn cael ei gyhoeddi, a phryd y ceir penderfyniad terfynol ar y mater

Anfon copi o lythyr diweddaraf y Dirprwy Brif Weinidog at y deisebwyr

### (ix) P-03-230 Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Prif Weinidog newydd i ofyn a yw'n bwriadu nodi Diwrnod Rhyngwladol Gwrthwynebwyr Cydwybodol

Aros am ymateb gan y Llywydd

### (x) P-03-238 Llygredd ym Mornant Porth Tywyn / P-03-241 Llanelli Star - Achubwch ein Carthffosydd

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am fanylion y dystiolaeth ategol a ddarparwyd gan y deisebwyr a:

gofyn a yw gorsaf bwmpio Cambrian Place a Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli yn bodloni'r gyfarwyddeb Dŵr Gwastraff Trefol

gofyn iddi egluro faint o leoedd y gall carthion gael eu gollwng cyn cyrraedd canolfan trin dŵr Northumberland Place

tynnu sylw at bryderon y deisebwyr am y gwrthdaro buddiannau a ganfyddir o ran ymchwilio i ollwng carthion

gofyn a yw'r deisebwyr wedi bod yn rhan o'r Astudiaeth ar Farwolaeth Cocos

### (xi) P-03-240 Gwelliannau i'r A40 yn Llanddwei Felffre

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn pryd y caiff y gwaith o wella'r palmant ei gwblhau, gofyn am amserlen ar gyfer y gwaith o gwblhau'r adolygiad o gyflymder.

### (xii) P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o strategaeth is-ranbarthol Gorllewin Swydd Gaer / Gogledd-ddwyrain Cymru

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol :

Ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn am eu barn ar ddefnyddio ffigyrau amcanestyniad poblogaeth, ac yn gofyn a oes pwysau ar awdurdodau lleol i dderbyn ffigyrau penodol

Ysgrifennu at y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ofyn a allai unrhyw ran o Strategaeth Is-ranbarthol Gorllewin Swydd Gaer / Gogledd-ddwyrain Cymru fod yn groes i hawliau dynol.

### (xiii) P-03-247 Achub cartref Hedd Wyn

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Gofyn am wybodaeth gyfreithiol am bwerau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod adeiladau hanesyddol yn cael eu diogelu pan fyddant yn cael eu prynu gan berchnogion preifat

Ysgrifennu at berchennog cyn gartref Hedd Wyn i holi a oedd ganddo unrhyw gynlluniau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i ddiogelu'r adeilad.

### (xiv) P-03-248 Gwell mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus i bobl ag anableddau

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Gwahodd y deisebwyr i gyflwyno tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog:

i ofyn am fanylion y gorsafoedd a fydd yn cael eu gwella o ganlyniad i'r Rhaglen Gwella Gorsafoedd Cenedlaethol

i ofyn am fanylion y cynlluniau i foderneiddio'r cynllun bathodynnau glas

i ofyn am ganlyniadau'r adroddiad ar fynediad i bobl â nam ar y synhwyrau

i dynnu sylw at farn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nad yw'n debygol y caiff dyheadau eu gwireddu oni bai bod awdurdodau lleol yn cael rhagor o arian

rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal am y ddeiseb a holi a ddylid ehangu'r ymchwiliad  a chynnwys hygyrchedd trafnidiaeth

### (xv) P-03-253 Mabwysiadu carthffosydd preifat

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am ragor o fanylion am yr hyn y cyfeiriwyd ato yn y llythyr yng nghyswllt carthffosydd preifat, ac i ofyn am wybodaeth am hynt y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr

Gofyn i'r tîm Clercio a yw adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Lifogydd yng Nghymru yn cynnwys unrhyw argymhellion sy'n berthnasol i'r ddeiseb ac, os felly, sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r argymhellion

### (xvi) P-03-254 Sylwadau trydydd parti mewn cyfarfodydd cynllunio

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i holi pryd y caiff y Nodyn Cyngor Technegol ei gyhoeddi

Ysgrifennu at y deisebwyr i roi gwybod iddynt am y sylwadau yn y llythyrau gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### (xvii) P-03-255 Darpariaeth ar gyfer rhai ag anghenion addysg arbennig mewn ysgolion prif ffrwd

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Cau'r ddeiseb a pharatoi crynodeb o'r adroddiad

### (xviii) P-03-256 Trenau ychwanegol i Abergwaun

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i:

ofyn eto am ragor o wybodaeth am y rhwystrau sy'n atal arian rhag cael ei wario ar wasanaethau ychwanegol i Abergwaun

gofyn am ryw syniad o pryd y caiff y penderfyniad hwn ei ystyried eto, ac a oes modd cyflawni amcanion y ddeiseb yn y tymor canolig neu'r hirdymor

gofyn a yw'r Dirprwy Brif Weinidog wedi newid ei farn ers iddo anfon ei lythyr dyddiedig 28 Chwefror 2010 at y Pwyllgor ac ers y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y Seilwaith Rheilffyrdd yn y Dyfodol yng Nghymru ar 17 Mawrth 2010

Ysgrifennu at SWWITCH i ofyn am y sylwadau a gafodd y Pwyllgor gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Pwyllgor Menter a Dysgu

Ar ôl cael yr ymatebion hyn, cytunodd y Pwyllgor i'w trosglwyddo i'r Pwyllgor Menter a Dysgu i ofyn ei farn ar sut y dylid bwrw ymlaen â'r ddeiseb

### (xix) P-03-257 Adfer darlledu o'r Cynulliad ar S4C2

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Llywydd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y mater, a hefyd yn nodi y byddai'n well gan y Pwyllgor i Drafodion y Cynulliad gael eu darlledu'n fyw

### (xx) P-03-261 Atebion lleol i dagfeydd traffig yn y Drenewydd

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog gan anfon y wybodaeth ategol a gyflwynodd y deisebwr, yn gofyn am ei sylwadau ar y pwyntiau allweddol o godwyd gan y deisebwr ac yn holi pryd y caiff canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus eu cyhoeddi

Ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid i ofyn a ystyriwyd y materion a godwyd yn y ddeiseb yn ystod yr ymchwiliad i Ariannu'r Seilwaith Ffyrdd

### (xxi) P-03-264 Helpwch i atal y dirywiad ofnadwy mewn bywyd gwyllt a chynefinoedd

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i holi am gylch gorchwyl a chwmpas ei hadolygiad i'r rhesymau dros fethiant Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei thargedau bioamrywiaeth ac i holi pryd y caiff yr adolygiad ei gwblhau

Ar ôl cael y cylch gorchwyl a chwmpas yr adolygiad gan y Gweinidog, ysgrifennu at RSPB Cymru i ofyn a ydynt o'r farn bod unrhyw fylchau ynddynt

### (xxii) P-03-268 Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Aneurin Bevan

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ragor o wybodaeth am y modd y gellid tynnu sylw'r cyhoedd at y dewisiadau sydd ar gael iddynt i sicrhau eu bod yn troi at y gwasanaeth mwyaf priodol

Ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan i ofyn am ragor o wybodaeth am y modd y gellid tynnu sylw'r cyhoedd at y dewisiadau sydd ar gael iddynt i sicrhau eu bod yn troi at y gwasanaeth mwyaf priodol a gofyn am gopi o'r achos busnes a gyflwynwyd i'r Gweinidog yn amlinellu'r gwasanaethau a fyddai ar gael yn yr ysbyty newydd

Anfon y wybodaeth gan Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan at y deisebwyr gan ofyn iddynt anfon sylwadau ysgrifenedig ar y rhesymau dros beidio â lleoli adran Damweiniau ac Achosion Bryd yn yr ysbyty newydd

### (xxiii) P-03-270 Gweithredu dros Blant

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Gwahodd y deisebwyr i gyflwyno tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol

Gofyn i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau gasglu gwybodaeth am y modd y gall pobl ifanc gael grantiau i brynu'r cyfarpar angenrheidiol ar ddechrau cyrsiau addysgol, a sut y gall pobl ifanc cael cludiant am ddim i ddilyn y cyrsiau hyn

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes gan ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch camau o fewn y cynllun NEET sy'n gysylltiedig â'r ddeiseb hon

### (xxiv) P-03-273 Cludo tyrbini gwynt yn y Canolbarth

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn:

pryd y caiff yr astudiaeth i symud cydrannau tyrbini gwynt yn y Canolbarth ei chwblhau

am y wybodaeth ddiweddaraf am y casgliadau

i'r deisebwyr gael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad a gaiff ei gynnal ar Nodyn Cyngor Technegol 8

### (xxv) P-03-276 Cynnig ar gyfer merched - Sustrans

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i holi am gynnwys y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yng nghyd-destun y ddeiseb hon, ac i ofyn

iddo egluro sut y bydd yn ymdrin â phryderon am ddiogelwch merched

Ysgrifennu at y deisebwyr yn gofyn am sylwadau ysgrifenedig ganddynt ar gynnwys llythyr y Dirprwy Brif Weinidog

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mawrth 2010**